Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buddsoddi i Arbed
Meini Prawf Sgorio

Y pedair elfen angenrheidiol

Y Broblem

Yn yr adran hon, dylai'r sefydliad ddiffinio'r broblem y mae'r awyddus i'w datrys. Rydym yn chwilio am geisiadau sy'n cynnwys y canlynol yn benodol:

- Problem benodol sydd wedi ei diffinio'n glir, gan ddefnyddio tystiolaeth gadarn.
- Darlun eglur a manwl o bwy yw'r defnyddiwr gwasanaeth, ac i ba raddau y mae defnyddwyr gwasanaeth eisoes yn ymwneud â'r prosiect (naill ai drwy ymchwil sy'n gysylltiedig â nhw, profiad y staff o ymwneud â nhw, neu ddulliau o gydweithio â nhw).
- Eglurhad manwl o faes y gwasanaethau y mae'r her yn berthnasol iddo, ac eglurhad cryno o gyfrifoldebau strategol presennol y sefydliad.

Y Cynnig

Yn yr adran hon, dylai'r sefydliad ddisgrifio sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r broblem. Rydym yn chwilio am y canlynol yn benodol:

- Disgrifiad clir o'r syniad y mae'r sefydliad yn awyddus i'w weithredu;
- Eglurhad rhesymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran sut y bydd y cynnig yn gwella gwasanaethau, ynghyd â'r arbedion posibl (hy cyllid a/neu arbedion eraill) i'r sefydliad. Dylai hyn gael ei ategu gan dystiolaeth a gesglir o ffynonellau megis cynlluniau peilot, ymchwil, gwerthusiadau neu gynigion tebyg eraill, etc.
- Dealltwriaeth o sut mae'r syniad newydd yn ymateb i newidiadau cymdeithasol sylweddol, gan gynnwys y defnydd o dechnoleg newydd, ond heb ei gyfyngu i hynny.
- Disgrifiad clir o sut y cafodd y cynnig ei lunio, ac a oes enghraifft ohono'n cael ei roi ar waith rywle arall (ym maes y gwasanaethau perthnasol, yng Nghymru neu'n gyffredinol).
- Eglurhad o sut y gallai deddfwriaeth a chanllawiau ddylanwadu ar gyfeiriad y prosiect.

Y Bobl

Yn yr adran hon, dylai'r sefydliad ddisgrifio'r tîm a fydd yn gyfrifol am weithredu'r prosiect. Rydym yn chwilio am y canlynol yn benodol:

- Tîm sydd â strwythur arwain ac adrodd cadarn, ac sy'n meddu at y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad priodol i allu gweithredu'r prosiect yn effeithiol
- Noddwr gweithredol pendant sydd wedi neilltuo rhywfaint o amser ac adnoddau ar gyfer y prosiect
- Disgrifiad o unrhyw sefydliadau sy'n bartneriaid a'u rôl, ynghyd â rhesymau strategol a rhesymegol pam y maent yn rhan o'r prosiect.

Y Cynllun

Yn yr adran hon, dylai'r sefydliad nodi sut y mae'n bwriadu mynd ati i roi'r syniad ar waith. Rydym yn chwilio am y canlynol yn benodol:

- Y meincnodau y bydd perfformiad (gwella gwasanaethau/arbedion) yn cael ei fesur yn eu herbyn, a'r strategaeth ar gyfer casglu data
- Cynllun prosiect ac amserlen glir a fydd yn caniatáu i'r prosiect gael ei ddatblygu, ei weithredu a'i werthuso
- Cyllideb sy'n cynnwys digon o adnoddau ar gyfer rhoi'r prosiect ar waith
- Disgrifiad o sut y mae'r sefydliad yn bwriadu rhannu gwersi, dealltwriaeth, arferion gorau, neu ddulliau gweithredu sydd wedi eu datblygu o ganlyniad i'r gweithgarwch gweithredu.

Y sgoriau

Y Broblem

4 Mae'r broblem wedi ei diffinio'n glir ac yn rhesymegol mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, gan ddangos dealltwriaeth glir o bwy yw'r defnyddiwr gwasanaeth.

3 Mae'r broblem wedi ei diffinio'n glir ac yn rhesymegol ond mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth anghyflawn. Mae'n dangos dealltwriaeth o bwy yw'r defnyddiwr gwasanaeth.

2 Mae'r her yn cael ei disgrifio mewn modd cyffredinol, a/neu mae diffyg cysylltiadau rhesymegol â strategaeth y sefydliad. Mae'r dystiolaeth a ddarperir yn gyfyngedig, a dim ond dealltwriaeth gyffredinol sydd o ran bwy yw'r defnyddiwr gwasanaeth.

1 Mae'r her yn rhy gyffredinol ei naws, a/neu mae diffyg cysylltiadau rhesymegol â strategaeth y sefydliad. Mae rhywfaint o dystiolaeth

storïol ond cyfyngedig iawn yw'r syniad ynghylch pwy yw'r defnyddiwr gwasanaeth.

0 Mae diffyg manylion arwyddocaol yn yr her, yn ogystal â diffyg cysylltiadau rhesymegol â strategaeth y sefydliad. Nid oes unrhyw dystiolaeth neu mae'r dystiolaeth yn brin iawn, ac mae'r ddealltwriaeth o bwy yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn gyfan gwbl seiliedig ar ragdybiaethau.

Y Cynnig

4 Mae'n debygol iawn y bydd y cynigion yn cael effaith ar y broblem; ac yn sicrhau arbedion; ac yn cynnal neu'n gwella'r gwasanaethau presennol.

3 Mae'n debygol y bydd y cynigion yn cael o leiaf rhywfaint o effaith ar y broblem; yn sicrhau arbedion; ac yn cynnal neu'n gwella'r gwasanaethau presennol.

2 Mae'n debygol y bydd y syniadau yn cael o leiaf rhywfaint o effaith, ond mae'r llwybr at sicrhau arbedion a'r effaith ar wasanaethau yn llai eglur.

1 Efallai ei fod yn dangos rhywfaint o effaith bosibl, ond mae'r llwybr at sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau yn aneglur.

0 Prin yw'r dystiolaeth y bydd y syniad yn cael unrhyw effaith nac yn sicrhau arbedion.

Y Bobl

4 Mae gan y timau y cymysgedd priodol o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r arbenigedd y mae eu hangen i sicrhau llwyddiant y prosiect.

3 Mae gan y timau y rhan fwyaf o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r arbenigedd y mae eu hangen i weithredu'r prosiect yn effeithiol.

2 Mae gan y timau rai o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r arbenigedd y mae eu hangen i weithredu'r prosiect yn effeithiol, ond mae yna fylchau sylweddol ynddynt.

1 Nid oes gan y timau y rhan fwyaf o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r arbenigedd y mae eu hangen i weithredu'r prosiect yn effeithiol.

0 Nid oes gan y timau y rhan fwyaf o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r arbenigedd y mae eu hangen i weithredu'r prosiect yn effeithiol.

Y Cynllun

4 Mae'r cyllidebau a'r cynlluniau'n glir, ac maent yn caniatáu digon o amser ac adnoddau i gyflawni'r gweithgarwch yn effeithiol. Ni fyddai angen ond ychydig o waith ychwanegol i wella'r atebion.

3 Mae'r cyllidebau a'r cynlluniau'n glir, ac maent yn caniatáu amser ac adnoddau i gyflawni'r gweithgarwch yn effeithiol, yn sgil gwneud rhai mân newidiadau. Mae angen rhywfaint o waith ychwanegol i wella'r atebion, ond byddai'n bosibl cyflawni'r gwaith hwn yn y tymor byr.

2 Mae'r cyllidebau a'r cynlluniau yn caniatáu amser ac adnoddau i gyflawni'r gweithgarwch, ond mae'n bosibl y bydd angen nifer o newidiadau sylweddol er mwyn sicrhau y bydd y gweithgarwch yn effeithiol.

1 Nid yw'r cyllidebau a'r cynlluniau'n glir, a/neu nid ydynt yn caniatáu digon o amser nac adnoddau i gyflawni'r gweithgarwch yn effeithiol. Mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r atebion, ac mae'n annhebygol y byddai'n bosibl cyflawni'r gwaith hwnnw yn y tymor byr.

0 Mae'r cyllidebau a'r cynlluniau'n aneglur ac nid ydynt yn caniatáu digon o amser nac adnoddau i gyflawni'r gweithgarwch yn effeithiol. Mae angen gwneud gwaith ychwanegol a sylweddol i wella'r atebion, ac ni fyddai'n bosib cyflawni'r gwaith hwnnw yn y tymor byr.